



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

FFOCWS AR Y DYFODOL

Lles y ein Cymuned

2017-2022



Hirdymor



Atal



Integreddio



Cydweithio



Cynnwys



2020/2021 Fersiwn 4

FFOCWS AR Y DYFODOL 2017-2022

Lles yn ein Cymuned

Cynnwys

1.	Gwneud Pethau Gwahanol	1
2.	Buddsoddi mewn Lles Pobl.....	2
3.	Geirfa.....	4
4.	Cyflwyniad	6
5.	Llywodraethu	7
6.	Cynnwys ein Cymunedau	11
7.	Canolbwyntio ar ... Drechu Tlodi.....	12
8.	Ffocws ar y Dyfodol – y daith hyd yn hyn.....	17
9.	Amcanion Lles.....	18
10.	Cyfraniad ein Hamcanion Lles at y Nodau Lles.....	21
11.	Amcan Dechrau Gorau.....	22
12.	Amcan Bywyd Gwaith	25
13.	Amcan Lles Amgylcheddol.....	29
14.	Amcan Byw yn Dda	33
15.	Camau fydd yn helpu cyflawni'r saith nod lles cendlaethol.....	37
	Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif - diweddariad	37
	Codi Dyheadau, Codi Safonau	38
	Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa.....	39
	Adleoli Gorsaf Fysiau Merthyr Tudful	40
	Cynllun Adfer Natur	41
	Lleihau Lefelau Gwastraff.....	42
	Diogelu	43
	Hyb Cymorth Cynnar - y diweddaraf.....	44
	Hunan-werthuso Corfforaethol	45
	Trechu Tlodi	14
16.	Cymryd Rhan	15

1. Gwneud Pethau Gwahanol

- 1.1. Croeso i'n Cynllun Lles "Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned".
- 1.2. Yn ein cynllun, nodwn yr hyn a ddisgwyliwn gan ein Cynghorwyr a'r hyn a ddisgwyliwn gan y Cyngor i gyflawni'n blaenoriaethau corfforaethol a'n hamcanion lles. Fel y nodwyd y llynedd, mae hyn wedi'i ddatblygu i integreiddio â Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf – Ein Cwm Taf.
- 1.3. Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo o hyd i gydweithio'n agos â'n cymunedau i adeiladu gwydnwch ar draws y Fwrdeistref Sirol a dod â phobl at ei gilydd. Fel yr Arweinydd, rwyf am ddefnyddio fy rôl i barhau i adeiladu cysylltiadau rhwng pobl a galluogi cymunedau i weithredu fel ffordd o wella lles.
- 1.4. Fel pob corff cyhoeddus, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cynyddol ynghyd â thoriadau difrifol mewn cyllid gan y Llywodraeth. Gall y ffordd yr ydym yn ymateb i'r heriau hyn fod yn gyfle i wneud pethau gwahanol. Fel sefydliad, rydym yn ymwybodol iawn o effaith llymder ar bobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn y Fwrdeistref Sirol. Yn y cynllun hwn, gallwch nawr adnabod yn haws y gwasanaethau a ddarparwn sy'n cyfrannu at drechu tlodi yn ein cymunedau; mae hyn yn flaenoriaeth i bob un ohonom.
- 1.5. Mae'r Cyngor yn parhau i gynnig amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau y mae'n rhaid eu monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith a ddymunir. Rydym wedi datblygu Blaengynllun Gwaith y Cabinet sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cynllun lles corfforaethol hwn, gan gryfhau'r trefniadau llywodraethu ymhellach i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun hwn. Yn anffodus, oherwydd yr argyfwng coronafeirws byd-eang, bydd Blaengynllun Gwaith y Cabinet yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- 1.6. Fel Cynghorwyr, byddwn yn parhau i arwain datblygiad cymunedol trwy ddod â phobl a chymunedau at ei gilydd. Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau a'n profiadau ein hunain i hyrwyddo cyfleoedd drwy gynnwys y gymuned i gyflawni newidiadau cadarnhaol a pharhaol..



Cynghorydd Kevin O'Neill

Arweinydd y Cyngor

"Rwyf am i'n Cynghorwyr fod allan yn ein cymunedau, gan weithio ochr yn ochr â'n haelodau cymunedol i wella Merthyr Tudful."

2. Buddsoddi mewn Lles Pobl

- 2.1. Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rwy'n falch o gyflwyno ein cynllun sydd wedi ei ddiweddarau "Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned". Mae'r cynllun hwn yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud yn ein cymunedau i gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol a'n hamcanion lles, a sut rydym yn gweithio i wneud hyn.
- 2.2. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn yn sicrhau gwelliannau parhaus i les y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fwrdeistref Sirol heddiw ac yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, Bbyddaf yn gweithio i sicrhau bod y Cyngor yn gweithio'n wahanol trwy gymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 2.3. Mae Arweinydd y Cyngor wedi amlinellu'r rôl y mae ein Cynghorwyr yn chwarae fel llysgenhadon cymunedol. Bydd holl Swyddogion y Cyngor yn gweithio gyda chynghorwyr a rhanddeiliaid allweddol i adolygu ein gweledigaeth gorfforaethol, gan sicrhau y caiff ei hailffocysu er mwyn diwallu'r anghenion sy'n bodoli eisoes a'r rhai sy'n datblygu. Bydd hyn yn egluro'r meysydd lle mae angen i ni weithio'n wahanol er mwyn gwneud y gwelliannau pellach a'n helpu ni i dargedu ein hadnoddau er mwyn canolbwyntio ar y rhain.
- 2.4. Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu nifer o heriau, yn enwedig o ran gorfod rheoli effaith y gostyngiadau cyllidebol a brofwyd o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, mae angen o hyd i'n cymunedau fanteisio ar wasanaethau allweddol y Cyngor.
- 2.5. Gwyddom fod trigolion y fwrdeistref sirol hefyd yn wynebu pwysau ariannol fel effaith diwygio budd-daliadau, costau tai cynyddol a biliau ynni uwch ymysg eraill. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i helpu pobl i reoli'r pwysau hyn ac i fynd i'r afael â thlodi. Mae'r cynllun hwn bellach yn rhoi enghreifftiau o sut mae ein gwasanaethau yn cynnig cymorth er mwyn i gymunedau reoli'r heriau hyn.
- 2.6. Ers y llynedd, rydym wedi gofyn am gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n dda ac rydym eisoes wedi cynnal ymarfer sy'n ystyried capasiti ar draws y Cyngor cyfan. Mae cynllun gwella yn cael ei ddatblygu a fydd yn ategu'r cynllun lles corfforaethol cyffredinol.



Ellis Cooper

Prif Weithredwr CBS
Merthyr Tudful

- 2.7. Mae'r Cyngor bellach yn sefydliad meinach sydd angen gweithio'n gallach er mwyn darparu gwasanaethau a chymorth i bobl. Drwy weithio gyda chymunedau a'n partneriaid allweddol, byddwn yn parhau i newid ac ystyried sut y gallwn weithio'n wahanol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd o fewn ein cymunedau.
- 2.8. Mae cyhoeddi'r Cynllun Lles Corfforaethol hwn (Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned) yn cael ei wneud yn ystod yr argyfwng coronafeirws byd-eang. Oherwydd hyn, efallai y caiff rhai elfennau eu hail-edrych arnynt yn ddiweddarach yn y flwyddyn gyda gwelliannau pellach.

3. Geirfa

Pum ffordd o weithio	Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried i ddangos eu bod nhw'n gallu cyd weithio'n well, gan osgoi ailadrodd camgymeriadau o'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor yr ydym yn eu hwynebu. Y pum peth yw:
1 – Hir Dymor	Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.
2 – Atal	Gall atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu gyrff cyhoeddus i ryddhau adnoddau ddiwallu eu Hamcanion Lles.
3 – Integreiddio	Ystyried sut y gall Amcanion Lles y Corff Cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion gyrff cyhoeddus eraill.
4 – Cydweithredu	Gweithredu ar y cyd gydag unrhyw berson neu sefydliadau gwahanol a allai helpu'r corff cyhoeddus i gyflawni ei amcanion lles.
5 – Ymrwymiad	Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb i gyflawni Nodau Lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
Amcan Lles	Mae'r Amcanion Lles yn nodi'r hyn a ddylai ddigwydd yn lleol i helpu gwella lles pobl Merthyr Tudful a chyflawni'r Nodau Lles Cenedlaethol.
Nod Lles	Dengys y Saith Nod Lles y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn darparu gweledigaeth ar y cyd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati.
Cynllun Ariannol Tymor Canolig	Cynllun i gydbwysu goblygiadau ariannol amcanion a pholisïau yn erbyn cyfyngiadau mewn adnoddau, sy'n darparu sail ariannol ar gyfer gwneud penderfyniadau, i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig (pum mlynedd).
Tlodi	Pan fydd adnoddau person yn is o dipyn na'r hyn sydd ei angen arno i fodloni ei anghenion sylfaenol.
Amddifadedd	Gellir diffinio amddifadedd o ganlyniad i ddiffyg incwm ac adnoddau eraill, a all arwain yn gynyddol at gyflwr o dlodi.


Tlodi cymharol	Lle mae gan aelwyd incwm isel, mae ganddynt rywfaint o arian ond nid yw'n ddigon i fforddio unrhyw beth uwchlaw'r hanfodion.
Tlodi diamod	Lle nad oes gan berson y swm lleiaf o incwm sydd ei angen i fodloni'r gofynion canolig ar gyfer un neu fwy o anghenion byw sylfaenol dros gyfnod estynedig o amser.
Cynllun Gwaith y Cabinet	Rhestr o benderfyniadau allweddol a phenderfyniadau eraill a gynlluniwyd gan Aelodau'r Cabinet i'w gwneud ar ran y Cyngor. Diben y Rhaglen Wwaith yw rhoi rhybudd am y penderfyniadau hynny a chyfle i ymgynghori.
Gofrestr Risg Gorfforaethol	Ym mhob sefydliad mawr, ceir risgiau sy'n ymwneud â swyddogaethau busnes craidd, iechyd a strategaeth gorfforaethol – caiff y rhain eu categoreiddio fel risgiau corfforaethol. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gofnod o'r holl risgiau corfforaethol a nodwyd; fe'i defnyddir i fonitro'r risgiau hyn a dangos sut y maent yn cael eu rheoli/liniaru.

4. Cyflwyniad

- 4.1. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd gynaliadwy i gyflawni'r weledigaeth gyffredin er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Felly, rhaid sicrhau wrth wneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallent eu cael ar y bobl sy'n byw eu bywydau ym Merthyr Tudful yn awr ac yn y dyfodol.
- 4.2. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dros Gymru sydd a rôl i warchod budd cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, ac i gefnogi'r gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r Nodau Lles.


Ein Cynllun, Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned

- 4.3. Yn ein Datganiad Lles, rydym yn gosod amrediad pob Amcan Lles ac yn amlinellu pam yr ydym o'r farn y bydd bodloni'r Amcan Lles yn gwneud y gorau o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r saith Nod Lles.
- 4.4. Yn ein cynllun, nodwn sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r amcanion lles. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau cysylltiedig, manylion cynlluniau a strategaethau allweddol a sut yr ariennir y cynllun.
- 4.5. Rydym yn adolygu ein cynllun bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau, y cynlluniau a'r strategaethau allweddol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cyd-fynd yn glir â'n hamcanion lles. Mae hyn yn dogfennu'r newidiadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad hwn a'r rhesymeg dros y newidiadau. Yn ogystal, byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynnyddol, a fydd yn gwerthuso'r cynnydd a wnaethom.
- 4.6. Isod, mae diagram syml i weld lle mae ein cynllun (*Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned*) yn sefyll mewn perthynas â'r gwaith rhanbarthol ar draws Cwm Taf ac o fewn y Cyngor.



5. Llywodraethu

- 5.1. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (CATC) yn amlinellu dyraniad y cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac yn amcanu gofynion cyllideb yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran y gyllideb, gyda'r fframwaith ar gyfer cynllunio a rheoli ei adnoddau dros y pum mlynedd ariannol diwethaf wedi wynebu heriau sylweddol. Cyfanswm yr arbedion gwasanaeth a gyllidebwyd ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd 2016/17 i 2020/21 yw £13 miliwn.
- 5.2. Mae'r graff isod yn dangos faint o ddiffygion a ragwelir yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf:



- 5.3. Er mwyn cyflawni'r newid hwn ar y maint sydd angen, bu gofyniad i ailffocysu ac ad-drefnu'r hyn a wnawn yn sylweddol ac mae'r broses hon wedi ein harwain i gydnabod bod rhai gwasanaethau na allwn eu cyflawni mwyach.
- 5.4. Er mwyn cysoni rheolaeth ariannol y Cyngor â'r blaenoriaethau corfforaethol a'r amcanion lles, byddwn yn parhau i ddatblygu'r broses o flaenoriaethu gwasanaethau gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i wasanaethau blaenoriaeth sydd wedi'u diffinio'n glir er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol. Ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau effeithiol, effeithlon a gwerth am arian y mae ar ein dinasyddion a'n cwsmeriaid eu hangen.

- 5.5. Bydd y gwaith i flaenoriaethu gwasanaethau yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau bod y Cyngor yn wybodus wrth ddarparu gwasanaethau fforddiadwy. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r Setliad Refeniw a Chyfalaf blynyddol y Llywodraeth Leol dros dro.
- 5.6. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i alinio Refeniw a Setliadau Chyfalaf â'n Hamcanion Lles yng nghyhoeddiadau ein CATC yn y dyfodol, a bydd y rhain ar gael ym mis Mawrth / Ebrill bob blwyddyn.

Ein Hymateb i'r Heriau Ariannol wrth Symud Ymlaen

- 5.6.1 Mae angen i ni barhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma drwy ddal i ganolbwyntio ar y cwsmer a bod yn gyfrifol yn ariannol ym mhopeth a wnawn. Mae bod yn gyngor 'addas i'r diben' yn sail i'n holl waith ac yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion lles a'n blaenoriaethau corfforaethol ehangach.
- 5.6.2 Dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau a wynebwn:
- Gweddnewid ein gwasanaethau a buddsoddi yn ein staff
 - Cryfhau a datblygu ein gwaith partneriaeth ymhellach
 - Parhau i sicrhau buddsoddiad yn ein cymunedau;
 - Manteisio i'r eithaf ar ein setliadau ariannol llywodraeth leol

Cynllun Gwella CBS Merthyr Tudful (y Cynllun Newid)

- 5.7. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae CBS Merthyr Tudful wedi gofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi arwain at sefydlu Bwrdd Gwella a Sicrwydd ynghyd â chymorth arbenigol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun gwella yn cynnwys tair colofn, sef: Cynaliadwyedd Ariannol; Sefydliad Iach; Gwasanaethau o Ansawdd. Mae'r cynllun gwella hwn yn cael ei ddatblygu a bydd yn cefnogi'r cynllun lles corfforaethol hwn.
- 5.8. Fel Cyngor, byddwn yn parhau i wella sut mae strategaethau a dogfennaeth allweddol yn integreiddio. Fel rhan o Gynllun Gwella'r Cyngor (y Cynllun Newid) bydd ein Cynllun Rheoli Asedau, Masnacheiddio, Ffioedd a Thaliadau, CATC a'n Cofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu gwella ac yn rhan o newid cyfannol.

Sefydliad Iach – gan gynnwys Datblygu'r Gweithlu

- 5.9 Mae gan y Cyngor gyfoeth o sgiliau a phrofiad ar draws ei weithlu, sef ei adnodd mwyaf gwerthfawr. Mae ein gweithwyr yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau sydd, yn gyntaf ac yn bennaf yno i ddiwallu anghenion pobl. Mae ein timau yn cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a nodwyd gan y Cyngor. Rydym bellach yn sefydliad meinach. O ganlyniad i hyn, mae ein heriau yn cynnwys sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol a'u bod yn cael eu defnyddio i gyflawni ein

blaenoriaethau. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cynnal adolygiad parhaus yn unol â'r heriau a'r newid sy'n ein hwynebu. Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi ei weithlu i arwain, cyflawni ac ymateb i'r heriau y mae'r cyngor a'n cymunedau yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod. Rydym yn lansio ein cynlluniau datblygu proffesiynol personol wedi'u diweddarau. Fel y nodwyd yn y ddogfen Datganiad Lles, bydd pob aelod o staff yn gallu datblygu a gweld lle maent yn ffitio i'r gwaith o gyflawni ein hamcanion.


Llywodraethu a Risg

Mae'r Cyngor yn cynnal Cofrestr Risg Gorfforaethol a Chofrestrau Risg Gwasanaeth sy'n cynnwys manylion risgiau a gymeradwywyd gan y tîm rheoli corfforaethol a'r Cabinet a rheolwyr gwasanaeth yn y drefn honno. Lle mae risgiau'n hanfodol ac yn effeithio ar y Cyngor cyfan, cânt eu casglu a'u trin yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer Rheoli Risg wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn ac maent yn rhan annatod o weithrediadau'r Cyngor. Byddwn yn cryfhau hyn ymhellach drwy ymgorffori camau lliniaru mewn cynlluniau gwasanaeth, cynlluniau datblygu proffesiynol y rheolwyr a'r cynllun gwella. Mae sgoriau risg wedi cynyddu ar draws nifer o'n risgiau corfforaethol. Nod hyn yw lleihau'r sgorau risg drwy atal a gwella'n barhaus.

- 5.11 Adolygir risgiau'n rheolaidd drwy'r strwythur archwilio a chraffu ynghyd â strwythurau proffesiynol; gyda Chabinet y Cyngor yn adolygu risgiau bob chwarter. Mae gan y Pwyllgor Archwilio gyfrifoldeb penodol i brofi priodoldeb y systemau sy'n sail i weithgarwch rheoli risg. Mae'r systemau llywodraethu yn cydymffurfio â fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifon.

Offer a Phrosesau Llywodraethu Allweddol

Er mwyn cyflawni'r newid gofynnol yn effeithiol ac mewn ffordd safonol, mae'r Cyngor yn defnyddio ei brif bwyntiau rheoli, systemau, prosesau ac adnoddau. Amlinellir y trefniadau llywodraethu allweddol yn y diagram isod.



Datganiad Lles




Cynllun Lles Corfforaethol



Blaengynllun Gwaith y Cabinet



Rhaglen Craffu



Broses Hunan-werthuso Gorfforaethol



Cyfarfodydd y Cyngor Llawn



Cyfarfodydd y Cabinet



Grŵp Llywio Newid a Lles



Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Cwm Taf

Mae gofynion llywodraethu ychwanegol yn cael eu gosod ar y cyngor gan reoleiddwyr ac arolygwyr allanol. Mae'r rhain yn cynnwys yr isod, ond heb eu cyfyngu iddynt: Swyddfa Archwilio Cymru; ESTYN; Arolygiaeth Gofal Cymru; Llywodraeth Cymru. Bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r cyrff rheoleiddio hyn yn ôl yr angen.

6. Cynnwys ein Cymunedau

Mae un ar ddeg o Isadrannau Etholiadol ym Merthyr Tudful, a gynrychiolir gan 33 o Gynghorwyr Ward. Mae ein Cynghorwyr yn chwarae rôl arweiniol fel llysgenhadon cymunedol, gan helpu i ddarparu gwybodaeth gymunedol a helpu i rymuso pobl leol i wella eu cymunedau trwy ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth ymarferol.


- 6.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn am lefel fwy 'gweithredol' o gynnwys ein cymuned er mwyn cyflawni canlyniadau. Fel Cyngor, mae hyn yn golygu bod angen i ni gynnwys ein cymunedau wrth gynllunio a dylunio gwasanaethau, ynghyd â chynnwys cymunedau fel eu bod yn deall sut y bydd hyn yn effeithio arnynt.

Datblygu Gweithredu Cymunedol

- 6.2. Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth i'n cynghorwyr fel y gallant gyflawni gwaith yn y gymuned lle mae ei angen. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd lle bydd cynghorwyr yn cefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned. Fe welwch enghreifftiau niferus o waith grŵp cymunedol sydd wedi digwydd ledled y Fwrdeistref Sirol drwy ymweld â'n tudalen we ['Cylchgrawn Cyswllt'](#).
- 6.3. Mae nifer o weithgareddau cydweithredol cymunedol eisoes yn cael eu datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Datblygiad parhaus gweithgareddau o fewn Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa;
 - Cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymunedol a digwyddiadau fel y Fforwm 50+, carnifalau cymunedol a digwyddiadau rhwydweithio;
 - Gweithio gyda chymunedau a sefydliadau partner allweddol megis Cadwch Gymru'n Daclus er mwyn cwblhau ymgyrchoedd glanhau cymunedol.


7. Canolbwyntio ar ... Drechu Tlodi

- 7.1 Mae achosion a chanlyniadau tlodi yn lluosog ac yn gymhleth. Er bod cyfran yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi incwm yng Nghymru wedi gostwng dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae lefelau tlodi yng Nghymru yn parhau uwchlaw gwledydd cartref eraill y DU (Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon); gyda rhagolygon a luniwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar dlodi yn darogan nad yw'r sefyllfa yn mynd i wella ar hyn o bryd.
- 7.2 Mae lefelau'r holl unigolion sy'n byw mewn **tlodi cymharol** yng Nghymru ar 24%, tra bod lefelau'r **tlodi absoliwt** ond fymryn yn is na hynny (22%). Ym Merthyr Tudful, mae'r cyfraddau anweithgarwch economaidd yn dal yn uchel; mae cyfraddau diweithdra yn parhau'n uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod yr enillion wythnosol gros cyfartalog ym Merthyr Tudful tua £70 yn is na chyfartaledd Cymru, sef £535.00 ar hyn o bryd.
- 7.3 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cylch o dlodi, sy'n gallu bod yn anodd ei ddianc yn aml.



- 7.4 Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â thlodi er mwyn lleihau effaith ein cymunedau. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu llu o wasanaethau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n helpu i wneud hyn (gweler y tabl isod). I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau, y rhaglenni neu'r prosiectau, cliciwch ar y logo neu'r botwm.

Gwasanaeth / Rhaglen / Prosiect	Pa fath o help sydd ar gael?	Am gael mwy o wybodaeth?	Ble mae hyn yn helpu i fynd i'r afael â thlodi?
Dechrau'n Deg	Nod y rhaglen hon yw bod plant 0-4 oed yn cael 'dechrau'n deg' mewn bywyd yn y ffordd orau posibl, gan gynnig hefyd gyngor, cymorth ac arweiniad wedi'u targedu i'r teulu ehangach Mae'r gwasanaethau a gynigir yn cynnwys - Gofal plant rhan-amser o ansawdd a arienniri i blant 2-3 oed - Gwasanaeth Ymweld lechyd a Bydwreigiaeth gwell - Mynediad i Raglenni Rhianta - Cymorth ar gyfer Datblygiad Iaith Cynnar - Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd		✓ ✓ ✓
Cymorth Ymyrraeth Lluosog	Fe'i gelwir hefyd yn Dîm o Amgylch y Teulu; mae Cymorth Ymyrraeth Lluosog yn rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf sydd ar gael i deuluoedd ym Merthyr Tudful gyda phlant 0-18 oed sydd angen gwasanaethau cymorth lluosog ychwanegol. Gall y cymorth gynnwys: - Addysg - Rhianta - Tai - Ymddygiad Plant - Cyllid - Iechyd a Lles		✓ ✓ ✓
Gwasanaethau Addysg	Mae gan y Cyngor ystod eang o wasanaethau sy'n cynnig cymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn iddynt lywio drwy'r daith addysgol gyflawn, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ôl-16. Mae'r gwasanaethau hyn yn ceisio darparu'r sgiliau a'r priodoleddau i blant a phobl ifanc i'w helpu i wella eu bywydau eu hunain. Mae'r cefnogaeth a gynigir yn cynnwys: - Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant - Anghenion Dysgu Ychwanegol - Clybiau brecwast a chiniawau ysgol - Rhianta - Clybiau gwaith cartref - Datblygu ymddygiad		✓ ✓ ✓ ✓

Gwasanaeth / Rhaglen / Prosiect	Pa fath o help sydd ar gael?	Am gael mwy o wybodaeth?	Ble mae hyn yn helpu i fynd i'r afael â thlodi?
Gwasanaethau Cyflogadwyedd	Mae llawer o bobl sy'n ddi-waith yn wynebu mwy o rwystrau nag eraill pan ddaw'n fater o fynd i mewn i waith a symud ymlaen wedyn o fewn byd gwaith. Mae gwasanaethau cyflogadwyedd yn galluogi pobl i weithio tuag at waith neu gael swydd, i aros mewn gwaith, ac i symud ymlaen yn y gweithle. Mae llawer y tu allan i'r farchnad lafur a gall yr achos am hyn yn aml fod yn eithaf cymhleth (e.e.) maent yn isel o ran hyder/hunan-barch; mae bylchau yn eu CV neu mae ganddynt ddiffyg geiradaon; mae eu sgiliau craidd ac ati wedi dyddio. Mae'r cymorth ymarferol sydd ar gael yn cynnwys: - Meithrin hyder - Hyfforddiant am ddim i sicrhau cymwysterau gwerth cyflogwyr (e.e.) hylendid bwyd; cymorth cyntaf; codi a chario ac ati. - Cymorth un-i-un - Hyfforddiant sy'n benodol i waith (e.e.) cardiau Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu; hyfforddiant cerbydau fforch godi; Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ac ati. - Cymorth a chynghor ar gyfrifoldebau gofal plant, teithio a gofal - Help gyda chwilio am swydd (e.e.) chwilio am swyddi ar-lein; ceisiadau am swyddi ac yn y blaen	  	 ✓  ✓  ✓  ✓  ✓  ✓
Refeniw a Budd-daliadau	Mae'r Cyngor yn cynnig cyngor ac arweiniad ynghylch ystod o fudd-daliadau a grantiau y gellir eu cael naill ai'n uniongyrchol gan y Cyngor, neu sydd ar gael drwy asiantaethau neu sefydliadau eraill. Mae rhai o'r meysydd lle mae cyngor ar gael yn cynnwys: - Lleihad Treth y Cyngor - Prydau ysgol am ddim - Budd-dal tai - Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) - Grantiau cymunedol - Taliad tai dewisol - Tai i gartrefi - Grantiau dillad ysgol		 ✓  ✓  ✓  ✓  ✓
Cyngor ar effeithlonrwydd ynni	Gall y Cyngor gynnig cyngor a chymorth ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni mewn nifer o ffyrdd (e.e.) Mae swyddogion y Cyngor yn hapus i drafod y Broses Asesu Safonol er mwyn helpu i gyfrifo sgôr effeithlonrwydd ynni adeiladau; ac mae'r Model Adeilad Ynni Symlach yn cysylltu perfformiad ynni adeiladau – mae hyn yn ofynnol fel rhan o'r rheoliadau cynllunio.		 ✓  ✓

Gwasanaeth / Rhaglen / Prosiect	Pa fath o help sydd ar gael?	Am gael mwy o wybodaeth?	Ble mae hyn yn helpu i fynd i'r afael â thlodi?
Tai a Grant Cymorth Tai	Mae'r Rhaglen Grant Cymorth Tai yn comisiynu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer pobl sydd angen tai. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i wella iechyd pobl, yn rhoi gwell mynediad at wasanaethau i bobl sy'n agored i niwed ac yn helpu pobl i gael gwir annibyniaeth, dewis a rheolaeth dros eu bywydau drwy rymuso pobl i fyw'n fwy annibynnol. Gellir darparu ystod eang o gymorth, gan gynnwys: - Cymorth i sicrhau diogelu a gwarchod eiddo - Cymorth i ddefnyddio offer cartref yn ddiogel - Cymorth i reoli mynediad i'r eiddo - Cymorth i drefnu'r gwaith o wasanaethu/atgyweirio offer - Trefnu addasiadau tai i ymdopi ag anabledd - Cymorth i gyllidebu, cynyddu incwm a rheoli cyllid - Cymorth i drefnu mynediad er mwyn cael cymorth proffesiynol (e.e.) meddyg teulu; gwasanaethau cymunedol		✓ ✓ ✓ ✓
Parciau a Mannau Gwyrdd/Agored	Mae parciau a mannau gwyrdd/agored o ansawdd yn cynnig cyfleoedd i bawb gyrraedd man lle gallant gerdded, chwarae ac ymlacio – mae'r cyfleusterau hyn ar gael am ddim. Mae pum Parc Bwrdeistref: - Parc Cyfarthfa; - Parc Thomastown; - Parc Troedyrhiw - Parc Treharris - Parc Trelewis Mae gan Barc Bwrdeistref maes neu feysydd chwarae, efallai y bydd ganddynt gyrtiau bowlïo a chyrtiau tenis; a gall fod ag ardal neu gaeau chwarae, gwelyau blodau ffurfiol a nodwedd tirwedd galed megis stand bandiau neu ffynnon. Bydd yn darparu ar gyfer ystod eang o ddiddordebau. Bydd yn cael ei gau bob nos ar amser a bennwyd ymlaen llaw. Ceir chwe pharc cymunedol hefyd. Mae'r parciau hyn yn llai ffurfiol na Pharc Bwrdeistref; yn y bôn, maent yn fan lle y gall pobl fynd i eistedd i ymlacio neu lle y gall plant chwarae ar y glaswellt a bydd ganddynt feinciau a biniau sbwriel a chânt eu cynnal a'u cadw bob dydd.		✓ ✓ ✓ ✓

Dyma rai enghreifftiau o'r math o wasanaethau cymorth y mae'r Cyngor yn cynnig - i gael gwybod am y cymorth arall sydd ar gael, ewch i'n [wefan](#).

- 7.5 I helpu pobl i nodi'n gliriach ble mae gwasanaethau'r Cyngor yn cefnogi'r agenda trechu tlodi, rydym wedi datblygu botwm a fydd yn ymddangos bob tro y bydd gwasanaethau neu weithgarwch yn cyfrannu at ymdrechion y Cyngor i gefnogi pobl.



8. Ffocws ar y Dyfodol – y daith hyd yn hyn

Gallwch hofran dros rai o'r lluniau hyn i dderbyn gwybodaeth bellach ar y camau hyn lle maent ar gael

2015-2016



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

2016-2017



Cynhelir Asesiad Poblogaeth ar y cyd i nodi anghenion cymunedol ar draws Cwm Taf



Mae Cyngorwyr a swyddogion yn cydweithio i adeiladu'r Cynllun Lles Corfforaethol



Y Cynllun Lles Corfforaethol – Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned yn derbyn cymeradwyaeth y Cyngor

2017-2018



Mae'r Cyngor yn dechrau cyflwyno gweithgareddau/gwasanaethau i wneud cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol a'i amcanion Lles

2018-2019



Mae swyddogaeth graffu'r Cyngor yn adolygu ac yn craffu ar yr Adroddiad Craffu Blynnyddol – adroddiad sy'n edrych yn ôl ar y perfformiad a wnaed a'r effaith a gwydd drwy'r flwyddyn gyntaf o gyflwyno'r Ffocws ar y Dyfodol



Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynhyrchu ei Gynllun Lles cyntaf 'Ein Cwm Taf'



Gydag amcanion mwy integredig a gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd yn ystod Blwyddyn Un, mae'r Cyngor yn defnyddio'r pum ffordd o weithio gyda'r bwriad o wneud y mwyaf o'u heffaith ar ei ganlyniadau.

*Adolygiad
Adnewydd
Ailffocysu*

Ar ddiwedd Blwyddyn Un, gwnaethom adolygu ac ailffocysu; mae'r naw amcan a osodwyd o fewn y Cynllun i ddechrau wedi lleihau i bedwar yn barod ar gyfer Blwyddyn Dau



Drwy gydol y flwyddyn gyflenwi gyntaf, adolygodd pwyllgorau craffu'r Cyngor yn gyson y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun, gan ddarparu her ac adborth.

2019-2020

*Adolygiad
Adnewydd
Ailffocysu*

Ar ddiwedd Blwyddyn Dau, aethom ati i adolygu a newid pwyslais y cynllun; bellach mae'n dangos yn fwy eglur ein dull



gweithredu sydd wedi newid gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio (e.e.) darparu gwasanaethau'n fwy integredig; cydweithio



Ail-gyflwyno proses hunan-werthuso corfforaethol i gefnogi adolygu statws, cydnabod arfer da; a nodi



meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau ar gyfer gwella

Edrych ymlaen i 2020-21



Yn dilyn ymweliad arholiad, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn llunio adroddiad ar ddefnydd y Cyngor o'r 5 ffordd o weithio. Mae'r adroddiad yn dangos cynnydd da ac yn cynnig camau gweithredu ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol

Mae strategaeth ddrafft y Cyngor
ar gyfer Trechu Tlodi wrthi'n cael
ei datblygu ac mae swyddogion
yn archwilio'r cyfleoedd i
integreiddio hyn i'r Cynllun
Corfforaethol er mwyn
manteisio i'r eithaf ar gyfleoed
cyflenwi ar draws y sefydliad
a'u hatgyfnerthu

Parhau i hunan-werthuso
Archwilio trechu tlodi
ymhellach
Adnewyddu/ailffocysu/a
dolygu'r
Datblygu dulliau pum
ffordd o Adolygu a
gwella llywodraethu

d

9. Amcanion Lles

- 9.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus weithio'n well gyda'i gilydd a chymunedau drwy gymryd rhan a thrwy weithredu ar y cyd. Mae hyn yn gynyddol bwysig i ateb yr heriau a wynebwn.
- 9.2. Er mwyn gosod ein hamcanion Lles, fe wnathom gyfrannu at ddatblygu asesiad anghenion ar y cyd ar draws Cwm Taf¹. Gwnaed hyn i lywio datblygiad y Datganiad Lles ac wedi hynny arweiniodd at ddatblygu amcanion Lles y Cyngor. Mae'r pedair thema a'r amcanion a gyflwynir yn fersiwn 2019/2020 o'r cynllun yn aros yr un fath ar gyfer 2020/2021.
- 9.3. Rhestrir themâu ac amcanion Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful isod:

Thema Lles	Dechrau Gorau i Fywyd (cyfeirir ato hefyd fel DG)
------------	---

Amcan Lles	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.
------------	---

Thema Lles	Bywyd Gwaith (cyfeirir ato hefyd fel BG)
------------	--

Amcan Lles	Mae pobl yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.
------------	---

Thema Lles	Lles Amgylcheddol (cyfeirir ato hefyd fel LIA)
------------	--

Amcan Lles	Mae cymunedau'n diogelu, gwella ac hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.
------------	--

Thema Lles	Byw yn Dda (cyfeirir ato hefyd fel BDd)
------------	---

Amcan Lles	Galluogir pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol da a iechyd meddwl da.
------------	---

- 8.4 Yn y cynllun hwn, rydym yn amlinellu'r camau a ddilynwn i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n cyfraniad at yr Amcanion Lles. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr hyn a wneir i gyflawni'r Amcanion Lles, gan gynnwys blaenoriaethau allweddol a chynlluniau a strategaethau cysylltiedig.
- 8.5 Ers datblygu'r Cynllun, mae ein prif swyddogion wedi gweithio gyda'u timau a gyda'i gilydd i ailffocysu eu strategaethau, nid yn unig i gyflawni eu blaenoriaethau gwasanaeth a chyflawni amcanion Lles y Cyngor, ond hefyd i fod yn fwy hyddysg wrth gynllunio gwasanaethau fforddiadwy. Y pum ffordd o weithio yw'r sail ar gyfer gwneud gwahanol

¹ Gallwch ddarllen [asesiadau Lles y boblogaeth](#) a'r [asesiadau Lles](#) ar ein gwefan [Ein Cwm Taf](#).

bethau (a gwneud pethau'n wahanol). Datblygwyd 'Strategaeth ar Dudalen' sy'n hawdd ei deall ar gyfer pob amcan lles. Caiff y rhain eu hystyried gan bob tîm wrth iddynt gwblhau'r broses hunan-werthuso gorfforaethol: y prif gyfrwng a ddefnyddir i ystyried a ydym yn gwneud gwahaniaeth ai peidio. Ewch i'r dudalen ['Datganiad Lles'](#) ar ein gwefan lle byddwch yn dod o hyd i'r Strategaethau ar Dudalen diweddaraf.

- 8.6 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydym yn parhau i ddysgu gwersi a chryfhau'r ddarpariaeth ymhellach yn unol â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Mae nifer o enghreifftiau o sut y byddwn yn gwneud hyn:
- gweithdai pwyllgor craffu integredig i wneud archwiliad manwl i bynciau penodol;
 - gweithgorau cydweithredol i archwilio cyfleoedd ar gyfer cynllunio ar y cyd, a darparu gwasanaethau gyda phartneriaid mewnol ac allanol; a
 - sesiynau her gritigol ar draws gwasanaethau i 'brofi' ac archwilio syniadau, canfyddiadau allweddol gweithgareddau ac i rannu gwersi a ddysgwyd yn fwy eang.
- 8.7 Mae Cynllun Gwella'r Cyngor (y Cynllun Newid) yn cael ei ddatblygu a bydd yn gwella ymhellach ein trefniadau llywodraethu a'n ffordd o weithredu. Caiff y cynllun hwn ei ddatblygu i gyd-fynd â'r ddogfen hon a bydd yn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau.
- 8.8 Drwy ailffocysu ein strategaethau, gallwn gadarnhau blaenoriaethau a chysoni adnoddau yn unol â hynny. Gall adnoddau hefyd gael eu halinio'n well i brosiectau trawsbynciol ac felly maent yn gweithio i wella'r ddarpariaeth drwy'r pum ffordd o weithio.
- 8.9 Mae'r tablau yn yr adrannau isod yn amlinellu'r gwasanaethau o bob rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n cydweithredu i gyflawni'r amcanion lles a'r blaenoriaethau corfforaethol. Er mwyn datblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau sy'n digwydd, ac i alluogi staff a phartneriaid i nodi sut y maent yn gweithio yn y darlun ehangach, datblygwyd dogfen 'Gweledigaeth a Rennir' sy'n cysylltu nid yn unig â blaenoriaethau'r Cyngor, ond hefyd â rhai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a blaenoriaethau'r Cabinet. Fe welwch ein dogfen 'Gweledigaeth a Rennir' ar y dudalen nesaf.
- 8.10 Yn ogystal, mae proses arfarnu perfformiad staff y Cyngor wedi'i hadolygu er mwyn sicrhau bod cysylltiadau â'r amcanion lles a phum ffordd o weithio'n gliriach. Mae hyn yn ffurfio rhan o'r 'edefyn euraidd' sy'n cysylltu ein gweledigaeth, blaenoriaethau corfforaethol, amcanion lles, nodau tîm a nodau personol.

EIN CYD-WELEDIGAETH

"GWEITHREDU HEDDIW AR GYFER GWELL YFORY"

Y Cymru rydym ni eisiau:

Cymru ffyniannus	Cymru wydn	Cymru iachach	Cymru mwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynol	Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus	Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
------------------	------------	---------------	--------------------	----------------------------	---	---------------------------------

Y weledigaeth a rennir ar gyfer Merthyr Tudful i gyrraedd yno:

I grythau sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan rebarthol Blaenau'r Cymoedd, a bod yn lle i fod yn falc ohono, ble:

Mae pobl yn dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgais,

Mae pobl yn byw, yn gweithio, yn cael bywyd diogel, iach a chyflawn,

Mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd

Sut y bydd CBS Merthyr Tudful yn gweithio?



Tymor Hir



Atal



Integreiddio



Ymglymiad



Cydwethredu

Sut fyddwn ni'n cydwethio i gyflawni'r Weledigaeth A Rennir a chyflawni ein nodau

Canolbwyntio ar y Dyfodol

Cychwyn Gorsu i Fywyd

Mae gan blant a phobl ifanc y dechrau gorsu i fywyd ac mae ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddygwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.

Bywyd Gwaith

Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddolwelu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddiennad.

Lles Amgylcheddol

Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a cheth gwlad.

Byw yn Dda

Mae pobl yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.

Cynllun Lles y BGC

Gwydnwch a Lles y Gymuned

Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus sy'n gwella lles trigolion ac ymweliwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.

Ffordd o fyw, iechyd a bregusrwydd

I helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.

Economi a Seilwaith

I dyfu economi leol gref gyda chluant cynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarse yng Nghwm Taf.

Mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd (Amcan trawsbynciol)

Byddwn yn gweithio mewn ffordd newydd i sianelu cryfderau'n cymunedau, gan gynnwys gwirfoddolwyr, i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd a'r unigedd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer ohanynt.

Blaenoriaethau Gwleidyddol

Byddwn yn gofalu am ein holl ddinasyddion trwy dderparu addysg a gofai cymdeithasol o ansawdd fforddiadwy sy'n galluogi pawb i fyw eu bywydau i'w llawn potensial.

Byddwn yn annog ffyrdd o fyw bywiog a hyrwyddo lles.

Byddwn yn cefnogi amgylchedd ac economi cryf, cynaliadwy, amrywiol a llwyddiannus.

10. Cyfraniad ein Hamcanion Lles at y Nodau Lles

- 10.1. Mae'r saith Nod Lles² yn dangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maen nhw'n cynnig gweledigaeth a rennir i'r cyrff cyhoeddus i weithio tuag ati. Mae'r siart isod yn rhoi crynodeb byr o ble mae ein Hamcanion Lles yn cyd-fynd yn bennaf â'r Nodau Lles.

Nod Lles
Cymru lewyrchus
Cymru gydnerth
Cymru iachach
Cymru sy'n fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynus
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

- 9.2 Wrth ddatblygu'r ddogfen hon, mapiwyd yr ymateb cychwynnol a gynlluniwyd i'r nodau Lles cenedlaethol. Rydym bellach hanner ffordd trwy ddarparu'r cynllun hwn. Rydym wedi adolygu ein cyfraniad presennol at y nodau Lles er mwyn canfod a allwn, drwy wneud pethau gwahanol, ddangos mwy o gyfraniad at y nodau Lles cenedlaethol.

Amcan Lles	Cyfraniadau at Nodau Lles yn 2017							Cyfraniadau at Nodau Lles yn 2020						
Dechrau Gorau														
Bywyd Gwaith														
Lles Amgylcheddol														
Byw yn Dda														

- 9.3 Trwy fyfyrto a gwerthuso, rydym wedi nodi nifer o enghreifftiau o sut y mae ein cyfraniadau wedi datblygu o ganlyniad i ni'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae ein [Hadroddiadau Perfformiad Blynyddol](#) yn cynnig enghreifftiau o sut rydym wedi gwneud hyn.

² Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf a'r Nodau Lles yn y [Canllaw hwn](#).

11. Amcan Dechrau Gorau: Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.

Blaenoriaeth yr amcan hwn yw sicrhau gwelliannau yng nghanlyniadau addysgol plant a phobl ifanc.

Enghreifftiau o gyfranwyr at yr amcan lles hwn		
<u>Gwasanaethau'r Cyngor</u>		
• Codi Safonau • Gwella Ysgolion • Anghenion Dysgu Ychwanegol • Blynnyddoedd Cynnar • Tîm Diogelu • Adran Wastraff • Trwyddedu / Cludiant i'r ysgol • Cydraddoldeb • Disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith Ychwanegol	• Dysgu Oedolion yn y Gymuned • Gwasanaethau Ieuenctid • Cynhwysiant a Lles • Cynllunio Ysgolion ac Adnoddau Cymorth • Tîm Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant • Adran Ystadau • Adnoddau Dynol • Diogelwch ar y Ffyrdd a Rheoli Traffig • Adran Gerddoriaeth	• Rhaglenni cyflogadwyedd • Adran y Parciau • Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal • Tîm Datblygu Chwaraeon, Treftadaeth a Diwylliant • Tîm Rhianta • Cymorth Ymyrraeth Lluosog / Tîm o Amgylch y Teulu • Hawliau Tramwy / Teithio Llesol • Y Gymraeg • TGCh / TGCh Ysgolion
<u>Cyfranwyr Eraill</u>		
• Penaethiaid ac athrawon • ESTYN • Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg • Gwasanaeth Tân ac Achub • Ymddiriedolaeth Hamdden • Cyrff arholi (CBAC)	• Llywodraethwyr Ysgol • Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful • Coleg Merthyr Tudful • Ymgynghorwyr addysgol • Prifysgolion	• Consortiwm Canolbarth y De • Awdurdodau Lleol Eraill • Llywodraeth Cymru • Gweithgareddau awyr agored e.e. Rock UK • Dug Caeredin

- 11.1. Mae'r Amcan hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol a chynaliadwy i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Er bod yr ymagwedd hon yn bwysig i bob plentyn bydd o fudd yn bennaf i blant sy'n wynebu anhawster neu sydd â risg uchel o ganlyniadau gwael yn hwyrach mewn bywyd.
- 11.2. Mae addysg yn un o ragfynegwyr cliraf canlyniadau bywyd, megis cyflogaeth, incwm a statws cymdeithasol, ac mae'n rhagfynegi agweddau a lles. Mae'r amcan yn integreiddio'r

daith addysgol gyflawn, o'r blynyddoedd cynnar hyd at flynyddoedd gorfodol, ac ôl-16 gyda'r nod o roi sgiliau a phriodoleddau i blant a phobl ifanc i'w helpu gwella eu bywydau eu hunain.

11.3. Y canlyniadau allweddol y mae Dechrau Gorau am eu cyflawni yw

- Mae plant yn byw mewn amgylchedd cartrefol ac ysgogol;
- Mae plant yn cael mynediad i addysg cyn ysgol ac oedran ysgol o ansawdd uchel;
- Gwella'r canlyniadau addysgol i bob plentyn a pherson ifanc; a
- Bod plant a phobl ifanc yn mwynhau iechyd a lles emosiynol da.

11.4. Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn drwy adfywio ein strategaeth allweddol o ran Codi Safonau a thrwy ganolbwyntio ar fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol i wella:



Codi safonau addysg ar draws pob cam



Mynd i'r afael â lleihau absenoldeb parhaus



Gwella ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion



Diwallu anghenion ein dysgwyr sy'n agored i niwed



Gwella lles emosiynol disgyblion



Gwella'r defnydd effeithiol o ddata i lywio'r gwaith o dargedu adnoddau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau

Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

11.5. Mae pob amcan yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cyson a nodir ar adnodd o'r enw Strategaeth ar Dudalen. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amcan lles, y canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad allweddol ac mae'n sail i hunan-werthuso a Chynlluniau Gwella Busnes yr adrannau.

Byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd:

- canlyniadau a safonau addysgol i ddysgwyr, unigolion a grwpiau, yn gwella
- datblygiad iaith gynnar plant yn gwella;
- iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc yn gwella; a
- bod gwydnwch ymhlith teuluoedd sy'n derbyn cymorth yn gwella.

Sut mae'r thema 'Dechrau Gorau i Fywyd' yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau ehangach?

Ffocws ar y Dyfodol

Bywyd Gwaith

- Mae cefnogi plant a phobl ifanc i ennill sgiliau uwch yn cefnogi marchnad lafur fwy medrus
- Mae ysgolion yn cyflwyno plant a phobl ifanc i'r cysyniad o le, ac yn helpu i ehangu eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a'u diwylliant

Lles Amgylcheddol

- Codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â'r angen i sicrhau eu bod yn ailgylchu deunyddiau
- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl

Byw yn Dda

- Mae gan bobl ifanc, sydd â chymwysterau gwell, ddewis eang o opsiynau o ran gwaith; gall gwaith sy'n talu'n dda arwain at wella'u cyfleoedd i fyw'n annibynnol
- Mae ymarferwyr Dechrau Gorau yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Datblygu Chwaraeon i sicrhau mynediad cyfartal i weithgareddau, gan gefnogi gwell lles meddyliol

Cynllun Lles y BGC

Gwydnwch a Lles Cymunedol

- Mae ysgolion yn darparu amgylchedd dysgu ac yn rhoi cymorth o ran datblygu sgiliau i alluogi plant a phobl ifanc i fod yn fwy hunanddibynnol/gwydn

Ffyrdd o Fyw, Iechyd a bod yn Agored i Niwed

- Mae ysgolion yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am wahanol fathau o chwaraeon a gweithgareddau, gan gefnogi gwell iechyd a dewisiadau ffordd o fyw

Economi a Seilwaith

- Nod y cynllun Dechrau Gorau yw codi dyheadau ymhlith pobl ifanc a'u gwneud yn ymwybodol o opsiynau gyrfaol a'r llwybr y mae angen iddynt gymryd er mwyn gwella'u cyfleoedd i gyflawni eu nodau

Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Unigedd

- Mae ysgolion a chlybiau ieuencid yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc wneud a chynnal cysylltiadau y tu allan i amgylchedd yr ysgol

Blaenoriaethau Gwleidyddol

Edrych ar ôl ein dinasyddion drwy ddarparu addysg a gofal cymdeithasol fforddiadwy o safon sydd yn galluogi pawb i fyw eu bywydau i'w llawn botensial

- Mae cefnogi plant a phobl ifanc i ennill sgiliau uwch yn cefnogi marchnad lafur fwy medrus. Gall hyn arwain at well cyfleoedd i bobl ifanc gymryd eu lle mewn cymdeithas a byw'n annibynnol
- Drwy gynnig y dechrau gorau i fywyd, mae plant a phobl ifanc yn llai tebygol o geisio/angen cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol

Annog ffyrdd o fyw llesol a hyrwyddo lles

- Mae ysgolion yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am wahanol fathau o chwaraeon a gweithgareddau, gan gefnogi gwell dewisiadau o ran iechyd a ffyrdd o fyw.

Cefnogi amgylchedd ac economi cryf, cynaliadwy, amrywiol a llwyddiannus

- Mae cefnogi plant a phobl ifanc i ennill sgiliau uwch yn cefnogi marchnad lafur fwy medrus
- Codi ymwybyddiaeth mewn perthynas â'r angen i sicrhau eu bod yn ailgylchu deunyddiau
- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl

12. Amcan Bywyd Gwaith: Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol

Blaenoriaeth yr amcan hwn yw datblygu'r amgylchedd a rhwydwaith er mwyn i fusnesau ffynnu.

Enghreifftiau o gyfranwyr at yr amcan lles hwn		
Gwasanaethau'r Cyngor		
- Rhaglenni Cyflogadwyedd a Sgiliau - Adfywio Strategol - Cyllid Ewropeaidd ac Allanol - Trwyddedu - Tai a Grant Cymorth Tai - Ystadau	- Cymorth Busnes a Mewnfuddsoddi - Seilwaith Strategol - Iechyd yr Amgylchedd - Diogelwch Cymunedol - Adran Gynllunio - Adran Addysg	- Asedau Treftadaeth a Diwylliannol - Tîm Rheoli Cyrchfannau - Tîm Safonau Masnach - Trafnidiaeth - Cefn Gwlad, Parciau a Bioamrywiaeth - Addysg (Dysgu)
Cyfranwyr Eraill		
- Tydfil Training - Cronfa Dreftadaeth y Loteri - Rhent Dueth Cymru - Tasglu'r Cymoedd - Heddlu De Cymru - Awdurdodau Lleol eraill - Consortium Hyfforddiant Tudful - Nwy Prydain - Partneriaeth Adfywio Taf Bargoed - Cymdeithas Tai Merthyr Tudful - Ffôs y Frân - Sefydliad Bevan - Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru	- Y Coleg, Merthyr Tudful - Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful - Llu Ffiniau'r DU - Canolfan Mentergarwch Merthyr Tudful - Canolfan Soar - Pwyllgor Cyswllt Gorfodi Cyfraith Bwyd Cymru - Adref - Clwb Penydarren a Merched - BAWSO - Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg - Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - Timau Iechyd Galwedigaethol Cymunedol - Llamau	- Adran Gwaith a Phensiynau - Gyrfa Cymru - Cyngor ar Bopeth - Asiantaeth Safonau Bwyd - Busnes Cymru - Y Coleg, Merthyr Tudful - Parc Beiciau Cymru - Partneriaeth Canol y Dref - Merthyr Valley Homes - The Roost, Troedyrhiw - Penaethiaid Safonau Masnach Cymru - MIND Merthyr a'r Cymoedd - Alzheimer's Society

- 12.1. Mae'r Amcan Lles hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol a chydweithrediadol i leihau anfantais gymdeithasol trwy gefnogi datblygiad parhaus yr economi lleol; cynnal a gwella ymwybyddiaeth y gymuned o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt tra'n cynnig cyngor a chefnogaeth ar sut i'w cyrchu.
- 12.2. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw lles personol a lles materol ar wahan: mae'r ddau wedi'u cysylltu, gyda rhyddid a chyflawni personol yn adlewyrchu adnoddau pobl yn fawr

iawn. Drwy ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig yn yr economi mae cyfleoedd cyfoeth a chyflogi yn cael eu creu, gan ganiatau i bobl fanteisio ar y rhain trwy dderbyn cefnogaeth i gael gwaith teg. Bydd darpariaeth sy'n galluogi gwasanaethau megis cludiant cyhoeddus o help i gyflawni hyn.

12.3. Y canlyniadau allweddol y mae Bywyd Gwaith am eu cyflawni yw:

- Mae Merthyr Tudful yn cyflawni ei photensial economaidd llawn, gyda gweithlu medrus a gwell cyfleoedd cyflogaeth;
- Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau'r amgylchedd adeiledig a naturiol, gan ddiogelu a gwella ein hasedau diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol; ac
- Mae gennym gymunedau cryf, gwydn a chefnogol lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a sut maent yn effeithio ar eraill.

12.4. Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn drwy weithgareddau wrth ymateb i'n strategaeth allweddol, y Strategaeth Twf Economeg ac wrth fynd i'r afael â'n blaenoriaethau allweddol:



Gwella mynediad i addysg fydd yn arwain at gynyddu nifer y trigolion a chymwysterau;



Cynyddu nifer pobl leol sy'n cael mynediad i, sicrhau a chynnal cyflogaeth, gan wella argaeledd y gweithlu i'r farchnad leol;



Cynyddu'r gyfran o fusnesau newydd a rhai sydd wedi goroesi gan gynnwys mentrau cymdeithasol



Cynyddu cynhyrchiant y sector busnes;



Cefnogi datblygiadau twristiaeth, hamdden ac adloniant addas gan wneud y defnydd gorau o'n hamgylchedd naturiol a'n hasedau treftadaeth/diwylliannol;



Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer tai cynaliadwy ac adnewyddadwy, a datblygiadau ynni adnewyddadwy;



Creu cymunedau cynaliadwy sydd ag ymdeimlad cryf o le a sydd ganddynt botensial economaidd gynyddol; a



Gwella cludiant cyhoeddus a moddau cludo cynaliadwy

Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

- 12.5. Drwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd:
- Pobl ym Merthyr yn cael gafael ar y sgiliau i fodloni anghenion newidiol cyflogwyr;
 - Ein hamgylchedd a seilwaith yn newid er mwyn diwallu'r angen dynodedig ac yn hyrwyddo mewnfuddsoddiad a chefnogi trethi busnes i'w helpu i oroesi;
 - Ein hasedau treftadaeth a diwylliannol yn parhau i gael eu gwerthfawrogi, eu diogelu, a'u hyrwyddo ac yn hybu gweithgarwch economaidd newydd;
 - Pobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Merthyr Tudful yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cynnwys; a
 - Y rhai mwyaf difreintiedig yn y farchnad dai yn teimlo eu bod yn gysylltiedig ac yn cael cymorth.

Sut mae'r thema 'Bywyd Gwaith' yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau ehangach?

Ffocws ar y Dyfodol

Dechrau Gorau

- Sicrhau bod y sgiliau a ddysgir yn yr ysgol yn cael eu datblygu ymhellach, gan wneud y mwyaf o gyfle'r person ifanc i sicrhau cyflogaeth
- Mae gwaith sy'n cynnwys y timau Dechrau Gorau a Datblygu Chwaraeon yn sicrhau mynediad cyfartal i weithgareddau corfforol

Lles Amgylcheddol

- Hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau a mewnfuuddsoddwyr o ran defnyddio adnoddau cynaliadwy, gan gynnwys defnyddio ynni adnewyddadwy
- Cefnogi grwpiau cymunedol sy'n ceisio ymgymryd ag asedau cymunedol

Byw yn Dda

- Darparu llwybrau gwaith/dysgu wedi'u targedu i blant sy'n derbyn gofal mewn partneriaeth â phartneriaid/rhanddeiliaid allweddol
- Mae gwasanaethau amddiffyn a diogelwch yn diogelu aelodau'r gymuned yn eu bywydau bob dydd
- Darparu cymorth tai i rieni a gofalwyr gan sicrhau amgylchedd mwy diogel i deuluoedd, gan gynorthwyo pawb i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

Cynllun Lles y BGC

Gwydnwch a Lles Cymunedol

- Cynnig gwasanaethau hygyrch fel y gall aelodau o'r gymuned dderbyn cymorth wedi'i dargedu drwy ganolfannau cymunedol
- Rhoi cyngor, arweiniad a chymorth ynghylch materion sy'n effeithio ar deuluoedd (e.e.) tai, cludiant i'r ysgol ac ati.

Ffyrdd o Fyw, Iechyd a bod yn Agored i Niwed

- Mae'r tîm Datblygu Chwaraeon yn cynnig cyfleoedd lleol wedi'u targedu i gael mynediad i weithgareddau corfforol i drigolion o bob oed
- Rhoi cyngor, arweiniad a chymorth ymarferol i gymunedau drwy ein gwasanaethau Amddiffyn a Diogelu

Economi a Seilwaith

- Arwain ar thema Economi a Seilwaith BGC Cwm Taf. Drwy ddarparu ei wasanaethau, mae'r thema Bywyd Gwaith yn llwyr gefnogi'r maes hwn o gynllun y BGC

Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Unigedd

- Bydd y tîm Diogelwch Cymunedol yn cynnig cymorth o ran cydlyniant cymunedol, troseddu ac ofn troseddau
- Mae'r Tîm Trwyddedu a Safonau Masnach yn helpu i ddiogelu aelodau'r gymuned yn eu bywydau bob dydd

Blaenoriaethau Gwleidyddol

Edrych ar ôl ein dinasyddion drwy ddarparu addysg a gofal cymdeithasol fforddiadwy o safon sydd yn galluogi pawb i fyw eu bywydau i'w llawn botensial

- Adeiladu ar wella deilliannau dysgwyr mewn ysgolion; darparu llwybrau gwaith/dysgu wedi'u targedu i blant sy'n derbyn gofal mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.
- Mae gwasanaethau Amddiffyn a Diogelu'n helpu i ddiogelu aelodau o'r gymuned yn eu bywydau bob dydd

Annog ffyrdd o fyw llesol a hyrwyddo lles

- Hyrwyddo gwaith ein timau Datblygu Chwaraeon a Chwareon Anabledd er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol
- Cynnig gwasanaethau hygyrch fel y gall aelodau o'r gymuned dderbyn cymorth wedi'i dargedu drwy hybiau cymunedol

Cefnogi amgylchedd ac economi cryf, cynaliadwy, amrywiol a llwyddiannus

- Gweithio i sicrhau mewnfuuddsoddiad pellach gan ddod â swyddi a mwy o fanteision economaidd i'r Fwrdeistref Sirol;
- Parhau i gefnogi'r seilwaith sy'n datblygu yn y dref i wella ei gysylltedd ymhellach ar draws y Fwrdeistref Sirol ac yn y rhanbarth ehangach;
- Gweithio gyda'n Hadrannau Ystadau a Chynllunio i sicrhau bod cartrefi fforddiadwy, hygyrch ac o safon ar gael i'r rhai sy'n byw ym Merthyr Tudful

13. Amcan Lles Amgylcheddol: Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad

Blaenoriaeth yr amcan hwn yw gwella defnydd effeithlon o ddefnyddiau ac adnoddau gan Hierarchiaeth Wastraff a chreu Cynllun Adfer Natur Cyntaf y Cyngor.

Enghreifftiau o gyfranwyr at yr amcan lles hwn		
<u>Gwasanaethau'r Cyngor</u>		
- Gwasanaethau Gwastraff - Polisi a Gweithredu - Cyllid Ewropeaidd ac Allanol - Glanhau Strydoedd - Rheoli Adeiladu - Tipio Anghyfreithlon - Canolfan Ailddefnyddio Dodrefn - Diogelwch Cymunedol	- Bioamrywiaeth - Rheolaethau Datblygu (gan gynnwys ardaloedd cadwraeth) - Gwasanaethau Tirwedd - Priffyrdd a Pheirianneg - Adfywio Strategol - Iechyd yr Amgylchedd - Parciau a Phrofedigaeth	- Gwasanaethau Eiddo - Asedau Treftadaeth a Diwylliannol - Mannau Agored - Safleoedd Amwynder Dinesig - Seilwaith Strategol - Adran Addysg - Adfywio Cymunedol
<u>Cyfranwyr Eraill</u>		
- Treftadaeth, Twristiaeth a Diwylliant - WRAP Cymru - Caru Cymru - Cymdeithas Syrfewyr Sirol - Asiant Cefnffyrdd De Cymru - Capita - Cyfoeth Naturiol Cymru - Barod - Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru - Cymdeithas Tai Merthyr Tudful - Biogen Ltd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	- Tai a Grant Cymorth Tai - Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol. - Cyfeillion Taf Bargod - Cyngor Sir Caerfyrddin - Merthyr Valleys Homes - Llif Data Gwastraff - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerfyrddin - Redstart - Grŵp Rheolwyr Rheoli Datblygu De-ddwyrain Cymru (ac ehangach) - Viridor Waste Management Ltd - Cyngor Dinas Casnewydd - Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru	- Cymorth Busnes a Mewnfuddsoddi - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Cadwch Gymru'n Daclus - Rhondda Cynon Taf - Taclo Tipio Cymru - Heddlu De Cymru - Cymdeithas Arolygon Sirol Cymru - Cyngor Dinas Caerdydd - Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy - Ynni o Wastraff - Dŵr Cymru - Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru - Heddlu Gwent - Mannau Gwyrdd Cymru - Caffi (Scoops) ym Mharc Taf Bargod - Dŵr Cymru - Rheilffordd Model Cyfarthfa - Cymdeithas Bysgota Merthyr

- Cyfeillion Parc Cyfarthfa
- Cyfeillion Parc Taf Bargod
- Elusen Trychineb Aberfan
- Bro Morgannwg
- Trafnidiaeth Cymru
- Grŵp Cymunedol Pontsticill

13.1. Mae'r amcan lles hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol i fodloni anghenion lles ym Merthyr Tudful. Dylid dehongli'r anghenion hynny i gynnwys mannau gwyrdd o ansawdd dda a chysylltedd, diogelu cynefinoedd a bioamrywiaeth, systemau eco gwydn, tirwedd ac atal

llygredd. Er bod yr ymagwedd hon yn bwysig i'r amgylchedd yn ei grynswth, bydd yn fuddiol i ardaloedd ble mae problemau neu risgiau amgylcheddol allweddol.

13.2. Ffocws yr amcan lles hwn yw'r gwaith a wnawn â'n cymunedau i warchod, gwella ac hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad. Bydd y ffordd rydym yn trin yr amgylchedd a chefn gwlad yn ffactor hanfodol i ddyfodol cynaliadwy ym Merthyr Tudful oherwydd bydd buddion i wella ein hamgylchedd yn cael eu teimlo ar draws ein holl amcanion lles.

13.3. Y canlyniadau allweddol y mae Lles Amgylcheddol am eu cyflawni yw:

- Lleihau difrod trwy atal llygredd
- Gwneud y gorau o defnyddio deunyddiau ac adnoddau ailgylchadwy trwy'r hierarchiaeth wastraff;
- Bod gan Ferthyr Tudful seilwaith mannau agored a mannau gwyrdd o ansawdd dda a bioamrywiaeth gysylltiedig; a
- Bod defnydd ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cynyddu.

13.4. Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn trwy'r Cynllun Busnes Rheoli Gwastraff, y Cynllun Rheoli Carbon (CRhC) a'r Cynllun Adfer Natur a thrwy ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella:



Cynyddu faint o fetelau a phapur sy'n cael eu hailgylchu yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn cyrraedd y targedau ailgylchu a bennir gan Lywodraeth Cymru a rhagori arnynt;



Cynyddu cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchir fesul person;



Gwella safon glanweithdra ar ein priffyrdd;



Lleihau lefelau tipio anghyfreithlon;



Cynyddu nifer y Mannau Agored â Blaenoriaeth (allan o 23 o Fannau Agored â Blaenoriaeth) sy'n bodloni neu'n rhagori ar y safon ansawdd: Yn Iach, yn Saff ac yn Ddiogel; a



Lleihau'r allyriadau CO₂ sy'n codi o adeiladau, goleuadau stryd, fflyd a theithio busnes gan 15% erbyn 2025 (3% yr un pob blwyddyn).

Mae sbardunau strategol pwysig eraill a fydd yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol, y Cynllun Adfer Natur, y Cynllun Rheoli Carbon a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.

Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

- 13.5. Mae pob amcan yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cyson a nodir ar adnodd o'r enw Strategaeth ar Dudalen. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r amcanion lles, y canlyniadau a'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ffurfio'r sail ar gyfer hunan-werthuso. Bydd gwaith yn cael ei wneud hefyd i adolygu a datblygu cynlluniau gwella busnes cadarn.
- 13.6. Byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd:
- Ansawdd yr aer ar Twynyrodyn Road yn gwella;
 - Allyriadau CO2 yr awdurdod lleol yn gostwng 3% o'i hadeiladau (y flwyddyn);
 - Yr amser a gymerir i glirio achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodir ar dir y Cyngor yn gwella;
 - Mae glendid ein strydoedd yn gwella;
 - Mae ein cyfraddau ailgylchu yn gwella; a
 - Cheir cynnydd o Fannau Agored â Blaenoriaeth (allan o 23 o Fannau Agored â Blaenoriaeth) sy'n bodloni neu'n rhagori ar y safon ansawdd: Yn Iach, yn Saff ac yn Ddiogel.

Sut mae'r thema 'Lles Amgylcheddol' yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau ehangach?

Ffocws ar y Dyfodol

Dechrau Gorau

- Cefnogi ysgolion mewn unrhyw waith codi ymwybyddiaeth a wnaed ganddynt mewn perthynas â'r angen i sicrhau eu bod yn ailgylchu deunyddiau
- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl

Bywyd Gwaith

- Darparu rheolaeth ar wastraff; gwasanaethau ailgylchu a glanhau strydoedd, cryfhau ymrwymiad y dref i fod yn lle i ymfalchïo ynddo a sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn rhydd o risg.

Byw yn Dda

- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl
- Gweithio'n agos gyda'r timau Adfywio Cymunedol i greu mannau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol cost isel

Cynllun Lles y BGC

Gwydnwch a Lles Cymunedol

- Cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor o gynnal a chadw goleuadau stryd yn y fwrdeistref sirol, gan helpu i greu amgylchedd mwy diogel ar gyfer cymunedau lleol.
- Sicrhau diogelwch ac amddiffyniad cymunedau drwy sicrhau bod adeiladau a threftadaeth newydd a rhai wedi'u newid yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu presennol.

Ffyrdd o Fyw, lechyd a bod yn Agored i Niwed

- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl
- Cydweithio'n agos â'r timau Adfywio Cymunedol i ddarparu gwell llwybrau a mannau i gerddwyr ac annog pobl i deithio'n llesol

Economi a Seilwaith

- Sicrhau seilwaith diogel a glân a gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan atyniadol i'r rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â hi.
- Sicrhau bod pob datblygiad tai newydd yn cynnwys nifer ddysranedig o unedau fforddiadwy i ateb y galw a nodwyd

Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Unigedd

- Gweithio'n agos gyda'r timau Adfywio Cymunedol i greu mannau ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol cost isel

Blaenoriaethau Gwleidyddol

Edrych ar ôl ein dinasyddion drwy ddarparu addysg a gofal cymdeithasol fforddiadwy o safon sydd yn galluogi pawb i fyw eu bywydau i'w llawn potensial

- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n rhad ac am ddim a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio mannau agored i wella lles corfforol a meddyliol
- Mae ysgolion yn cyflwyno plant a phobl ifanc i'r cysyniad o le, ac yn helpu i ehangu eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a'u diwylliant

Annog ffyrdd o fyw llesol a hyrwyddo lles

- Cydweithio'n agos â'r timau Adfywio Cymunedol i ddarparu gwell llwybrau a mannau i gerddwyr ac annog pobl i deithio'n llesol
- Darparu a chynnal a chadw mannau gwyrdd y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd eu defnyddio'n ddi-dâl

Cefnogi amgylchedd ac economi cryf, cynaliadwy, amrywiol a llwyddiannus

- Helpu pobl a busnesau Merthyr Tudful i gyflawni eu potensial economaidd drwy fynd ati mewn ffordd strwythuredig a hyblyg i ddatblygu'r economi;
- Manteisio ar unrhyw gyfleoedd i greu mannau hamdden newydd

14. Amcan Byw yn Dda: Mae pobl yn cael eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a iechyd meddwl da.

Blaenoriaeth yr Amcan hwn yw sicrhau bod pobl yn gallu byw yn annibynnol ac yn ddiogel.

Enghreifftiau o gyfranwyr at yr amcan lles hwn		
<u>Gwasanaethau'r Cyngor</u>		
• Llwyddiant a Phontio Cynaliadwy • Tîm Diogelu • Hyb Cymorth Cynnar • Iechyd Meddwl Cymunedol • Adran Addysg • Adran Drwyddedu • Tîm Plant ag Anableddau	• Atal ac Ymyrraeth Gynnar • Tîm Cefnogi Newid • Gofal Preswyl • Plant sy'n Derbyn Gofal • Cyflogadwyedd a Sgiliau • Gwasanaethau Ieuencid • Tîm Datblygu Chwaraeon, Treftadaeth a Diwylliant	• Ymateb a Galluogi Cychwynnol • Pobl Hŷn ac Anabledd • Comisiynu Gwasanaethau • Gwasanaethau Gofal Gwell • Diogelwch Cymunedol • Tai a Grant Cymorth Tai • Tîm o Amgylch y Teulu (Cymorth Ymyrraeth Lluosog) • Adran Refeniw
• Adran Gyfreithiol	• Tîm Cymorth i Deuluoedd	
<u>Cyfranwyr Eraill</u>		

- 14.1. Mae'r Amcan Lles Byw yn Dda yn ymwneud a chodi nifer yr unigolion, teuluoedd a chymunedau i sicrhau'r canlyniadau gorau iddynt hwy eu hunain. Mae'n ymwneud â chodi gwytnwch a darparu lefel briodol cefnogaeth cyn i broblemau godi neu cynyddu. Bydd hyn yn helpu lleihau'r angen i fod ynghlwm ag unrhyw argyfwng ac yn helpu mwy o waith ataliol.
- 14.2. Mae gweithio'n agos a'n partneriaid i fynd i'r afael a phrofiadau bywyd gwael plant yn gynnar yn sicrhau bod teuluoedd mwy bregus yn aros gyda'i gilydd; cynyddu nifer y plant

sy'n gallu byw gartref yn ddiogel (neu'n agos i gartref) ac yn eu rhwystro nhw rhag gorfod bod mewn gofal.

- 14.3. Bydd darparu'r wybodaeth gywir a chefnogaeth ar yr adeg cywir i bobl hŷn bregus yn eu galluogi nhw i gael gwell reolaeth dros eu bywydau nhw eu hunain, yn helpu atal rhag bod yn unig ac yn eu helpu i fyw yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Drwy wasanaethau megis 'Ymateb Dechreuol ac Ailalluogi' a '@Gwasanaeth Cartref' cefnogir pobl i gadw'n iach a byw yn annibynnol gartref, gan osgoi'r angen i fynd i ysbyty. Pan fydd yn angenrheidiol i bobl fynd i'r ysbyty, cefnogir unigolion i ddychwelyd i'w cartrefi mewn modd diogel ac amserol.
- 14.4. Y canlyniadau mae Byw yn Dda eisiau eu cyflawni yw:
- Mae pobl yn byw bywydau diogel ac annibynnol yn eu cymunedau
 - Gwarchod plant ac oedolion rhag niwed a gofalu eu bod yn ddiogel
 - Mae a phobl ifanc yn byw yn ddiogel gyda'u teuluoedd neu yn agos at eu cartref a throsglwyddo'n dda i fywyd oedolyn
- 14.5. Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn i wella trwy ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau gwella:



Gwella gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal (oedolion, plant a theuluoedd)

Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal; a

Galluogi nifer cynyddol o oedolion i fyw'n annibynnol

Mae yna nifer o gynlluniau a strategaethau rhanbarthol sy'n helpu i gyflawni'r amcan hwn, gan gynnwys 'Cynllun Rhanbarthol 2018-2023' Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf a Chynllun Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf 2018-2019. Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda swyddogion allweddol a rhanddeiliaid eraill er mwyn adolygu a symleiddio cynlluniau a strategaethau presennol. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â dyblygu ac yn nodi cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio.

Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

- 14.6. Mae pob amcan yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cyson, a gaiff ei gipio ar adnodd a elwir yn Strategaeth ar Dudalen. Mae'r ddogfen hon yn nodi amcanion lles, canlyniadau a dangosyddion perfformiad allweddol; ac yn ffurfio sail i hunan-werthuso.
- Byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd:
- Bydd nifer y plant ar Gofrestr Diogelu Plant neu sydd mewn gofal yn lleihau
 - Bydd nifer y plant sy'n gallu byw gartref yn ddiogel yn cynyddu

- Bydd nifer y plant sydd mewn gofal ac yn cael bywyd mwy sefydlog yn cynyddu
- Bydd nifer pobl hŷn sy'n aros mewn ysbyty yn hirach nag sydd angen oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol yn lleihau
- Bydd nifer yr oedolion sy'n gallu byw yn annibynnol ar ol cyfnod o ailgartrefu yn cynyddu
- Bydd mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol; a
- Bydd mwy o bobl sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn nodi gwelliant yn ansawdd eu bywyd.

Sut mae'r thema 'Byw yn Dda' yn cefnogi cyflawni'r blaenoriaethau ehangach?

Ffocws ar y Dyfodol

Dechrau Gorau

- Mae ein rhaglen faethu newydd ei datblygu yn anelu at gynyddu ein cyflenwad o ofalwyr maeth ym Merthyr Tudful.
- Rydym yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i sicrhau diogelwch a lleihau'r risg o niwed i les plant.

Bywyd Gwaith

- Drwy brosiect ar y cyd, rydym yn datblygu proses llwybr at waith ar gyfer pobl ifanc brofiadol a fydd yn gwneud y gorau o'u potensial i weithio ac yn gwella lles fel oedolion ifanc.

Lles Amgylcheddol

- Cefnogi plant sy'n derbyn gofal i ddod yn ddinasyddion mwy gweithgar ac yn fwy cymdeithasol gyfrifol.
- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy hyrwyddo rhaglenni cartrefi cynnes.

Cynllun Lles y BGC

Gwydnwch a Lles Cymunedol

- Byddwn yn sicrhau bod pobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn trosglwyddo'n sefydlog ac yn llwyddiannus i fyd oedolion.
- Datblygwyd Hyb Cymorth Cynnar ar y cyd â phartneriaid allweddol ar draws y Cyngor, gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector i gynyddu gwydnwch y boblogaeth sy'n agored i niwed.

Ffyrdd o Fyw, Iechyd a bod yn Agored i Niwed

- Mae llawer o ofalwyr a darparwyr maeth yn gwneud defnydd da o'r awyr agored yn eu gwaith gyda phobl ifanc i adeiladu gwydnwch a gwella iechyd a lles.
- Integreiddio gweithgaredd awyr agored i fywyd bob dydd.
- Rydym yn darparu gwasanaethau cymorth (gan gynnwys therapi) i wella iechyd emosiynol pobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Economi a Seilwaith

- Gweithio gyda phobl hŷn i ddatblygu ystod o gartrefi mewn cymunedau sy'n deall dementia.
- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy hyrwyddo rhaglenni cartrefi cynnes.

Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Unigedd

- Gweithio gyda Thai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gynyddu'r cyflenwad o lety â chymorth.
- Gweithio gyda'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a phartneriaid i leihau'r unigrwydd, yr effaith a'r stigma sy'n ymwneud â derbyn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal.

Blaenoriaethau Gwleidyddol

Edrych ar ôl ein dinasyddion drwy ddarparu addysg a gofal cymdeithasol fforddiadwy o safon sydd yn galluogi pawb i fyw eu bywydau i'w llawn botensial

- Mae Tai yn Gyntaf yn cynnig llety â chymorth ar gyfer trawma i bobl ifanc sydd ag anghenion uwch.
- Mae'r "Cynllun Gwasgareddig" yn cefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd Meddwl i symud yn ôl i'r gymuned o leoliadau gofal uchel gyda chymorth i uchafu eu hannibyniaeth.

Annog ffyrdd o fyw llesol a hyrwyddo lles

- Rydym yn darparu gwasanaethau cymorth (gan gynnwys therapi) i wella iechyd emosiynol pobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Mae llawer o ofalwyr a darparwyr maeth yn gwneud defnydd da o'r awyr agored yn eu gwaith gyda phobl ifanc i adeiladu gwydnwch a gwella iechyd a lles.
- Integreiddio gweithgaredd awyr agored i fywyd bob dydd.

Cefnogi amgylchedd ac economi cryf, cynaliadwy, amrywiol a llwyddiannus

- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy hyrwyddo rhaglenni cartrefi cynnes.
- Gweithio gyda phobl hŷn i ddatblygu amrywiaeth o gartrefi mewn cymunedau sy'n deall dementia e.e. gofal ychwanegol.
- Drwy brosiect ar y cyd, rydym yn buddsoddi mewn a datblygu llwybr at waith ar gyfer pobl ifanc brofiadol a fydd yn gwneud y gorau o'u potensial i weithio ac yn gwella lles fel oedolion ifanc

15. Camau fydd yn helpu cyflawni'r saith nod lles cenedlaethol

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol ar ei daith i gyflawni'r 7 nod lles a'n hamcanion lles. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn disgrifio'r camau hyn fel rhai sy'n amrywio o newidiadau syml y gellir eu gwneud yn gyflym ac yn hawdd i gamau mwy uchelgeisiol ac ymestynnol; yn y pen draw at gamau trawsnewidiol sy'n arwain at y Gymru a ddymunwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn ceisio gwneud y gorau o'r cyfleoedd a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn barhaus i lywio'r ffordd rydym yn gwneud ein busnes. Isod, ceir detholiad o'r camau rydym yn eu cymryd i sicrhau y gallwn ni fel Cyngor wella lles cenedlaethau'r dyfodol.

Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif - diweddariad

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd i genedlaethau o blant a phobl ifanc yn y dyfodol, rydym yn gweithio i hyrwyddo amgylcheddau dysgu deniadol ac ysgogol sy'n seiliedig ar egwyddorion dylunio carbon isel, effeithlon o ran ynni a chynaliadwy drwy gyflawni ein rhaglenni Ysgolion yr 21^{ain} ganrif a buddsoddi cyfalaf. Gan weithio ar y cyd â rhanddeiliaid, gan gynnwys cynllunio, gwasanaethau eiddo ac â gwasanaethau pensaernïol Blaenau Gwent, ein huchelgais yw darparu'r amgylchedd dysgu cynaliadwy gorau sy'n gost-effeithiol ac â materion chynnal a chadw isel. Bydd gwaith adeiladu ein hysgolion yn cydfynd â safon ragorol BREEAM sy'n ymgorffori egwyddorion uchelgeisiol ar gyfer Ecoleg a Bioamrywiaeth Mae pob prosiect buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion yn defnyddio o leiaf 15% o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a'u hailddefnyddio.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i gynnwys y gymuned yn y cynigion, gan gynnwys ymgysylltu ynghylch opsiynau ad-drefnu ysgolion, dewis safleoedd, cynllunio adeiladau a'r defnydd bwriadedig o safleoedd/adeiladau fel bod ysgolion yn cael eu gwerthfawrogi'n gynyddol a'u bod yn defnyddio asedau'n dda yn ein cymunedau. Fel rhan o'r cynigion buddsoddi cyfalaf, ein nod yw darparu cyd-leoli addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar ar safleoedd ysgolion a hyrwyddo'r Gymraeg drwy gynyddu'r ddarpariaeth o leoedd mewn ysgolion a gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

DG ✓	 Long-term ✓
	 Prevention ✓
BG ✓	 Integration ✓
LIA ✓	 Collaboration ✓
BDd ✓	 Involvement ✓
	



Codi Dyheadau, Codi Safonau


Mae'r strategaeth Codi Dyheadau, Codi Safonau yn flaenoriaeth bwysig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ei rôl o gefnogi ein plant a'n pobl ifanc i ymgynhyrdded at gyflawni'r gorau a chyfrannu at gymuned fywiog a llwyddiannus.

Ym Merthyr Tudful, credwn fod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i'r cyfleoedd bywyd gorau posibl y gallwn eu rhoi iddynt drwy wella eu mynediad i gyfleoedd addysgol o'r safon uchaf, tra'n herio eu dyheadau i gyflawni nid yn unig eu potensial disgwylidig ond y tu hwnt i hynny. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu fel sefydliadau dysgu i fynd i'r afael â thangyflawni a sicrhau gwelliannau go iawn yn ein hysgolion a lleoliadau addysgol eraill. Wrth i ni symud ymlaen mae angen i ni sicrhau ein bod yn diwallu anghenion a dyheadau cyfnewidiol plant a phobl ifanc wrth iddynt deithio ar eu teithiau addysgol. Rydym am gael effaith gadarnhaol ar fywydau unigolion ac yn y ffordd y mae pobl ifanc yn mynd ymlaen i fyw, gweithio a dysgu.

Rydym am wneud y canlynol:

- Canolbwyntio ar wella safonau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws pob lleoliad addysgol
- Dylanwadu ar ddyheadau a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc drwy ddatblygu systemau a phrosesau sy'n sicrhau bod yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â lleoliadau addysgol yn cynllunio ac yn cyflwyno gweithgareddau sy'n ysbrydoli ac yn herio pawb i wneud eu gorau glas
- Gwellu sgiliau academiaidd a medrau ehangach pob dysgwr i'w galluogi i gael mynediad at addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant; a
- Sicrhau ymagwedd integredig at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i bawb sy'n ymwneud ag addysg sy'n galluogi ymarferwyr i ganolbwyntio ar godi dyheadau a chodi safonau.

DG ✓	 Long-term ✓
	 Prevention
BG ✓	 Integration
LIA	 Collaboration ✓
BDd ✓	 Involvement ✓
	



Ardal Dreftadaeth Cyfarthfa

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ddatblygu.

*Cadwch olwg ar ein gwefan ac edrychwch
amdanom ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn cael
gwybod mwy am y prosiect cyffrous newydd hwn.*

DG	 Long-term
	 Prevention
BG	 Integration
LIA	 Collaboration
	 Involvement
BDd	




Adleoli Gorsaf Fysiau Merthyr Tudful

Fel rhan o'r broses Uwchgynllunio Canol y Dref, nodwyd yr angen i wella'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus i alluogi'r rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Merthyr Tudful i gael gwell mynediad at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus lleol a rhanbarthol. Yn dilyn proses archwilio a chynllunio gynhwysfawr gydag ymgynghoriad eang â'r gymuned, datblygwyd cynllun prosiect cynhwysfawr i sefydlu gorsaf fysiau well, fodern ac addas i'r diben ar safle newydd yn nes at orsaf drenau'r dref.

Gyda'r cyllid wedi'i gadarnhau a'i sicrhau'n derfynol, dechreuodd y contractwyr penodedig weithio yn y safle newydd ym mis Gorffennaf 2019. Gan weithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector; Mae tasgau allweddol ar y datblygiad hwn bellach yn mynd rhagddynt. Er mwyn sicrhau bod diweddariadau rhwydwaith rheolaidd ar gael, cyflwynir adroddiad uchafbwynt yn rheolaidd i Fwrdd Adfywio Cymunedol, Amddiffyn y Cyhoedd a Thai'r Cyngor.

Trwy'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol a ddatblygwyd gyda'r contractwyr allweddol ar gyfer y safle, Morgan Sindall, mae canlyniadau cadarnhaol eisoes wedi'u cyflawni, e.e. mae nifer o bobl leol a oedd wedi bod yn ddi-waith ers amser wedi sicrhau swyddi ar y safle mewn meysydd fel diogelwch a gweinyddiaeth. Gall cyfleoedd godi yn y dyfodol wrth i'r gwaith barhau ar y safle.

Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion lleol yn cael eu hysbysu ac yn cymryd rhan yn y datblygiad parhaus hwn, trefnodd Partneriaeth Twf Economaidd Merthyr Tudful ddigwyddiad 'Rhowch Gynnig Arni' yn cynnwys plant yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair. Wedi'i hwyluso gan y contractwyr Morgan Sindall a Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru, roedd y digwyddiad yn cynnig cyfle i blant brofi proses adeiladu'r bont. Gan wisgo hetiau caled; goglau a festiau llachar, cafodd y plant brofiad uniongyrchol o adeiladu pont grog enghreifftiol - gan ddatblygu a phrofi eu sgiliau peirianeg, ac fe wnaeth y plant fwynhau'n fawr iawn. Mae cyfleoedd i gynnal digwyddiadau tebyg yn cael eu harchwilio i gynnyws plant a phobl ifanc a, lle y bo'n briodol, byddant yn cael eu cynllunio a'u darparu yn ystod y

DG ✓	 Long-term ✓
	 Prevention
BG ✓	 Integration ✓
LIA ✓	 Collaboration ✓
BDd ✓	 Involvement ✓
	 ✓



Cynllun Adfer Natur

Daeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) i rym yn 2016. Mae'r Ddeddf yn datgan ei bod yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei swyddogaethau yng Nghymru, gynnal a gwella bioamrywiaeth lle bynnag y bo'n bosibl wrth arfer eu swyddogaethau'n briodol. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd geisio hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Merthyr Tudful 2019-2024 yn cynrychioli'r Ddeddf hon ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru, gyda phoblogaeth o tua 60,183 ac yn cwmpasu ardal o tua 11,000 hectar a gyda 2,300 hectar ohoni o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae enghreifftiau o gynefinoedd i'w canfod o fewn y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys rhostir agored, coetir brodorol, tir glas rhôs, gwrychoedd hynafol, ardaloedd o rwbel mwynol wedi'u hail-llysieuo'n naturiol, afonydd, nentydd a phyllau dŵr.

Yn ogystal â hyn, mae enghreifftiau o rywogaethau a warchodir o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn cynnwys dyfrgwn, madfallod cribog, ystlumod a brith y gors.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn nodi chwe amcan ar gyfer gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, sef:

- Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.
- Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd mawr a gwella eu rheolaeth.
- Cynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol drwy adfer cynefinoedd diraddiedig a chreu cynefinoedd.
- Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.
- Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro.
- Sefydlu fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni.

DG ✓	 Long-term ✓
	 Prevention ✓
BG	 Integration
LIA ✓	 Collaboration
BDd	 Involvement ✓
	



Lleihau Lefelau Gwastraff

Mae swyddogaethau Gwasanaethau Gwastraff Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth y DU a Llywodraeth Cymru, ynghyd â strategaeth Llywodraeth Cymru (Tuag at Ddyfodol Diwastraff).

Tuag at Ddyfodol Diwastraff yw'r ddogfen strategaeth wastraff drosfwaol ar gyfer Cymru. Mae'n fframwaith strategol lefel uchel tymor hir sy'n disgrifio'r canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y bydd effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff yn eu cyflawni ac yn cyfrannu tuag at ddyfodol cynaliadwy. Mae awdurdodau lleol yn cyflawni hyn drwy'r targedau atal gwastraff, paratoi i aildddefnyddio, ailgylchu, compostio a thirlenwi. Targed presennol Llywodraeth Cymru yw 64% ac mae'n bwriadu cynyddu i 70% yn 2024/25.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi gwneud lleihau gwastraff yn un o'i flaenoriaethau corfforaethol allweddol, a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i annog a helpu ein cymunedau (gan gynnwys busnesau) i leihau gwastraff ac ailgylchu cymaint ag y gallwn.

Drwy ailgylchu, rydym yn lleihau'r angen i ddefnyddio mwy o adnoddau naturiol ac yn atal tunelli o sbwriel rhag cael ei gladdu mewn safleoedd tirlenwi. Yn y DU, mae ailgylchu'n arbed tua 10-15 miliwn o dunelli o allyriadau carbon bob blwyddyn, sy'n cyfateb i dynnu 3,500,000 o geir oddi ar y ffordd. Yn ogystal, drwy aildddefnyddio mwy, gallwn arbed arian a lleihau'r angen i ddefnyddio a chynhyrchu mwy o wastraff. Pan fyddwn yn aildddefnyddio eitemau, gall:

- ymestyn oes defnyddiau gan arbed adnoddau naturiol y Ddaear ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- arbed ynni sy'n helpu i leihau'r risg o newid yn yr hinsawdd;
- lleihau faint o wastraff y byddwch yn ei anfon i safleoedd tirlenwi; ac
- arbed arian i chi.

DG		Long-term
		Prevention
BG		Integration
LIA		Collaboration
BDd		Involvement
		



Diogelu

Mae hyn yn flaenoriaeth allweddol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Roedd yr adran hon yn y broses o gael ei datblygu pan ddaeth argyfwng y coronafeirws yn flaenoriaeth i fynd i'r afael â hi. O'r herwydd bydd yr adran hon yn dod ar gael yn y dyfodol agos.


DG	
	Long-term
BG	
	Prevention
LIA	
	Integration
BDd	
	Collaboration
	
	Involvement
	




Hyb Cymorth Cynnar - y diweddaraaf

Gyda'r nod o wella'r gwasanaethau ymyrraeth ac atal gynnar ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd, cynhaliwyd adolygiad o'n gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu. Fel rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i deuluoedd am eu barn ar y gwasanaeth presennol, cafwyd mewnbwn gan sefydliadau partner ac ystyriwyd 7 model gwahanol ledled Cymru. O ganlyniad i'r adolygiad a'r adborth gan deuluoedd, penderfynon ni ddatblygu Hyb Cymorth Cynnar, a gaiff ei weithredu o 2019 / 2020.

Bydd yr Hyb Cymorth Cynnar yn dod â staff ynghyd o wasanaethau plant a gwasanaethau ataliol a ariennir gan grant at ei gilydd gyda'r nod o ddynodi anghenion yn gynt a chysylltu teuluoedd â chymorth cynnar. Fel hyn, rydym yn gobeithio y bydd cynnydd yn hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau cymorth cynnar, a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Gwyddom drwy ddarparu'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir y gallwn, mewn llawer o achosion, atal problemau rhag datblygu neu waethgu. Byddwn yn sicrhau bod yr Hyb Cymorth Cynnar hefyd yn gweithio i wella'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd ar gael i Ofalwyr Ifanc a theuluoedd plant sydd ag anableddau.

DG	 Long-term ✓
	 Prevention ✓
BG	 Integration ✓
LIA	 Collaboration ✓
BDd	 Involvement ✓
	 ✓





Hunan-werthuso Corfforaethol

Yn dilyn ailganolbwyntio ar yr ymarfer i adolygu a diweddarau'r broses yn unol â gofynion newidiol, cymeradwyodd Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor ailgyflwyno'r broses hunan-werthuso corfforaethol ym mis Mehefin 2019.

Mae hunan-werthuso'n galluogi swyddogion o fewn y Cyngor i fyfyrio ar sefyllfa bresennol eu gwasanaethau, tynnu sylw at unrhyw arfer da a chynnig tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau a wnaed ac unrhyw ganlyniadau a hawliwyd. Mae'r myfyrdod hwn yn cynnig cyfle i gofnodi'r holl feysydd i'w datblygu, gan fireinio'r rhain i nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella a fydd yn cefnogi gwelliannau o ran sut y caiff gwasanaethau eu rhedeg ac, yn bwysicaf oll, sut y gallant wella'r effaith y gallant ei chael er budd y cymunedau a wasanaethant.

Ymgwymerwyd â'r broses mewn 'tameidiau bach', ac fe'i cwblhawyd ar y cyd ag amrywiaeth eang o swyddogion yn cael mewnbwn, yn rhannu eu barn am yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, beth sydd ddim wedi mynd cystal, a sut y gallant weithio'n well gyda'i gilydd i gyflawni'r canlyniadau â blaenoriaeth. Mae hyn wedi helpu i nodi buddiannau ar draws y Cyngor, gan gyflwyno gwahanol gyfleoedd i wneud gwaith gyda'r nod o leihau dyblygu yn y ffordd rydym yn gweithio, gwneud y gorau o'n hadnoddau a bod yn gliriach am yr hyn y mae angen i ni ei wella yn gyntaf a sut y gallwn wneud hyn yn fwy effeithiol gyda'n gilydd. Mae'r gwersi a ddysgwyd bellach yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Gwella Busnes y Cyngor.

Mae'r broses hefyd yn dangos sut mae swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid y tu allan i'r Cyngor. Yn 2019/2020, mae hunan-werthuso wedi ail-orfodi blaenoriaeth y Cyngor i fynd i'r afael â thlodi ac, fel y gwelwch, mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n fwy penodol bellach yn ein cynllun lles corfforaethol.

DG ✓	
	Long-term
BG ✓	
	Prevention
LIA ✓	
	Integration
BDd ✓	
	Collaboration
	
	Involvement
	



Trechu Tlodi

Mae tlodi'n fater sy'n effeithio ar gyfran fawr o'r cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'r Cyngor bob amser wedi cynnig gwasanaethau cymorth sy'n cefnogi'r rhai sy'n wynebu risg o dlodi ac sy'n byw mewn tlodi. Mae Adran 7 y Cynllun hwn yn amlinellu barn a safbwynt presennol y Cyngor mewn perthynas â thlodi.

Yn dilyn y gwaith a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i gydgysylltu gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â thlodi'n well, gwnaed y penderfyniad gan wleidyddion a swyddogion i wneud mynd i'r afael â thlodi yn un o'r blaenoriaethau sylfaenol corfforaethol allweddol; gyda swyddogion yn derbyn cyfarwyddyd i integreiddio hyn i mewn i'r cynllun corfforaethol (ffocws ar y dyfodol).

Cynhaliwyd gweithdy ar gyfer Uwch Dîm Arwain y Cyngor ar ddechrau 2020 lle adolygodd aelodau'r uwch dîm ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, gan ddadansoddi data o amgylch cyd-destun tlodi ac ati. Roedd y wybodaeth hon yn cefnogi trafodaeth agored a gonest ynghylch:

- Sut mae pob gwasanaeth/adran yn cyfrannu at yr agenda trechu tlodi ar hyn o bryd;
- Beth arall y gellid ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau; a
- Beth yw'r prif flaenoriaethau (a'r rhai realistig), o ystyried y cyd-destun y mae'r Cyngor yn gorfod gweithio ynddo bellach.

Un o ganfyddiadau allweddol y sesiwn hon oedd bod uwch wneuthurwyr penderfyniadau o fewn y Cyngor yn archwilio'r cyfleoedd i ddatblygu un pwynt brysbennu er mwyn ymdrin â'r holl ymholiadau a dderbyniwyd, sy'n nodi tlodi fel ffactor allweddol. Fel rhan o'r gweithgaredd a osodwyd i'w gyflawni yn 2020/21; bydd y Cyngor hefyd yn adolygu sut y gall sicrhau ei fod yn datblygu dull mwy cydweithredol ac integredig o sicrhau'r system hon ar draws ei adrannau corfforaethol a mewnol er mwyn cyfeirio pobl at y gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir, gan wneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned.

DG ✓	 Long-term ✓
	 Prevention ✓
BG ✓	 Integration ✓
LIA ✓	 Collaboration ✓
BDd ✓	 Involvement ✓
	 ✓



16. Cymryd Rhan

- 16.1. 14.1 Mae nifer o ffyrdd o gymryd rhan yn y Cyngor. Un o'r prif ffyrdd o gymryd rhan yw drwy eich cynghorydd lleol. Gallwch ddarganfod pwy yw'ch Cynghorydd lleol a sut i gysylltu â hwy trwy ymweld â Gwefan y Cyngor.
- 16.2. Rydym am gynnal cyfranogiad cymunedol a pharhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o les ym Merthyr Tudful. Rydym yn eich croesawu i rannu eich meddyliau ar les neu'ch syniadau ar sut y gallwn wella lles ym Merthyr Tudful yn wellbeing@merthyr.gov.uk.
- 16.3. 14.3 Mae gan Bwyllgorau Craffu drefniadau i ganiatáu i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol gyflwyno sylwadau ar unrhyw fater sy'n cael ei drafod. Mae yna lawer o wahanol ffyrdd y gallech fod yn rhan o'r gwaith craffu, gan gynnwys:
- awgrymu pwnc i bwyllgor craffu ei archwilio;
 - mynychu cyfarfod i wrando ar y drafodaeth a'r ddatl;
 - mynychu cyfarfod i siarad ar eitem ar yr agenda; neu
 - darparu gwybodaeth a thystiolaeth fel tyst, er mwyn llywio darn penodol o waith adolygu sy'n cael ei wneud gan bwyllgor craffu.
- 16.4. Canllawiau ar siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn croesawu ac yn annog cyfranogiad gweithredol ei dinasyddion lle bynnag y bo'n bosibl ac mae cyfle i aelodau'r cyhoedd siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ar eitem ar y rhaglen.
- 16.5. Bydd y Pwyllgorau Craffu yn ystyried ceisiadau i archwilio materion a gyflwynir gan unrhyw sector o'r cyhoedd. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i geisiadau: effeithio ar grŵp neu gymuned o bobl; yn ymwneud â gwasanaeth, digwyddiad neu fater lle mae gan y Cyngor fudd sylweddol; peidio â bod yn fater y mae craffu wedi ei ystyried yn ystod y 12 mis diwethaf; nid mater arall y mae Pwyllgor Cyngor Bwrdeistref Sirol arall yn ymdrin â hi (e.e. materion cynllunio) heblaw lle mae'r mater yn ymwneud â phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Gallwch hefyd ddod o hyd i ni ar:



www.facebook.com/merthyrtydfilcbc



www.twitter.com/merthyrcbc



www.youtube.com/c/MerthyrTydfilCBC